Adroddiad i'r	Cyngor Sir
Dyddiad y cyfarfod	11 Hydref 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr adroddiad	Lisa Jones, Dirprwy Swyddog Monitro
Teitl	Penodi Aelod Lleyg i'r Pwyllgor Safonau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Penodi am un tymor yn y swydd, Aelod Lleyg i Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r rheoliadau llywodraethu ynghylch cyfansoddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gofyn am bwyllgor o rhwng pump a naw aelod sy'n cynnwys personau sy'n annibynnol ar y Cyngor, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. Rhaid i fwyafrif yr aelodau ar y Pwyllgor Safonau fod yn Aelodau Lleyg ac mae'r Cyngor yn chwilio am un aelod lleyg oherwydd ymddeoliad aelod lleyg blaenorol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae Panel Penodi Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn argymell i'r Cyngor llawn y dylid penodi Samuel Jones yn Aelod Lleyg.

4. Manylion yr adroddiad

Enwebodd y Cyngor Banel Penodiadau Arbennig Pwyllgor Safonau yn cynnwys: Cynghorwyr Sir Peter Scott, Bobby Feeley, Arwel Roberts; Cynghorydd Cymuned Gordon Hughes; a'r Aelod Lleyg Noela Jones i gyfweld â darpar aelodau lleyg ar gyfer yr un swydd wag ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

Mae'n ofynnol i'r swydd gael ei hysbysebu'n agored mewn dau bapur newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr Awdurdod Lleol a chynhaliwyd y cyfweliad ar 28 Medi 2022 gan ofyn am eirdaon ymlaen llaw, a gwelwyd y panel ar y diwrnod. Yn dilyn cyfweliad trawiadol, cytunodd y Panel yn unfrydol i gynnig y rôl i Samuel Jones, yn amodol ar gymeradwyaeth y cyngor llawn.

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Pwyllgor Safonau cynrychioliadol sy’n gweithredu’n llawn ac sy’n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn helpu i danategu gweithrediad y Cyngor o’i swyddogaethau democrataidd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i’r adroddiad hwn. Roedd rhai costau hysbysebu uniongyrchol wrth recriwtio. Mae gan aelodau lleyg hawl i gael lwfans yn unol â lefelau gorfodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cyfradd ddyddiol yw'r cyfraddau ac maent ar gael ar eu gwefan. Bydd costau'n cael eu cadw o fewn y gyllideb bresennol.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Ddim yn ofynnol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynal gyda Chraffu ac eraill?

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau hefyd yn bresennol fel sylwedydd ac ymgynghorwyd â'r Cyngor llawn ynghylch sefydlu'r Panel Penodiadau ei hun. Nid oedd angen unrhyw ymgynghoriadau eraill a hysbysebwyd y sefyllfa i'r cyhoedd trwy hysbysebion papurau newydd statudol a hefyd ar wefan y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Bydd y Cyngor yn torri deddfwriaeth y Pwyllgor Safonau llywodraethu ac ni fydd ganddo bwyllgor yn ei le i ymdrin ag unrhyw faterion a gyfeirir ato gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

11. Pŵer I wneud y penderfyniad.

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006.